*Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 1466

# Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015

**Adolygiadau ymarfer**

**4.**—(1) Rhaid i Fwrdd gynnal adolygiad ymarfer yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Diben adolygiad ymarfer yw canfod unrhyw gamau y gall partneriaid y Bwrdd Diogelu neu gyrff eraill eu cymryd i wella ymarfer amddiffyn plant ac oedolion amlasiantaethol.

(3) Rhaid i Fwrdd gynnal adolygiad ymarfer cryno yn unrhyw un neu rai o'r achosion canlynol, pan fo'n hysbys neu pan amheuir, o fewn ardal y Bwrdd, fod plentyn neu oedolyn wedi ei gam-drin neu ei esgeuluso a—

(a) bod y plentyn neu'r oedolyn—

(i) wedi marw, neu

(ii) wedi dioddef anaf a allai roi ei fywyd mewn perygl, neu

(iii) wedi dioddef nam difrifol a pharhaol i'w iechyd neu i'w ddatblygiad; a

(b) o ran plentyn, nad oedd y plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant nac yn blentyn a oedd yn derbyn gofal ar unrhyw ddyddiad yn ystod y 6 mis cyn—

(i) dyddiad y digwyddiad y cyfeirir ato yn is-baragraff (a)(i) neu (a)(ii), neu

(ii) pan fo is-baragraff (a)(iii) yn gymwys, y dyddiad y mae awdurdod lleol, person neu gorff y cyfeirir atynt yn adran 28 o Ddeddf Plant 2004(**1**) neu gorff a grybwyllir yn adran 175 o Ddeddf Addysg 2002(**2**) yn canfod bod plentyn wedi dioddef nam difrifol a pharhaol i'w iechyd ac i'w ddatblygiad; ac

(c) o ran oedolyn, nad yw'r oedolyn wedi bod, ar unrhyw ddyddiad yn ystod y 6 mis cyn dyddiad y digwyddiad y cyfeirir ato yn is-baragraff (a), yn berson y mae awdurdod lleol wedi penderfynu cymryd camau mewn cysylltiad ag ef i'w amddiffyn rhag cael ei gam-drin neu ei esgeuluso yn unol ag adran 32(1)(b)(i) o'r Ddeddf yn dilyn ymholiadau gan awdurdod lleol o dan adran 126(2) o'r Ddeddf.

(4) Rhaid i Fwrdd gynnal adolygiad ymarfer estynedig yn unrhyw un neu rai o'r achosion canlynol, pan fo'n hysbys neu pan amheuir, o fewn ardal y Bwrdd, fod plentyn neu oedolyn wedi ei gam-drin neu ei esgeuluso a—

(a) bod y plentyn neu'r oedolyn—

(i) wedi marw, neu

(ii) wedi dioddef anaf a allai roi ei fywyd mewn perygl, neu

(iii) wedi dioddef nam difrifol a pharhaol i'w iechyd neu i'w ddatblygiad; a

(b) o ran plentyn, bod y plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant a/neu ei fod yn blentyn a oedd yn derbyn gofal ar unrhyw ddyddiad yn ystod y 6 mis cyn—

(i) dyddiad y digwyddiad y cyfeirir ato yn is-baragraff (a)(i) neu (a)(ii), neu

(**1**) 2004 p. 31.
(**2**) 2002 p. 32.

(ii) pan fo is-baragraff (a)(iii) yn gymwys, y dyddiad y mae awdurdod lleol, person neu gorff y cyfeirir atynt yn adran 28 o Ddeddf Plant 2004 neu gorff a grybwyllir yn adran 175 o Ddeddf Addysg 2002 yn canfod bod plentyn wedi dioddef nam difrifol a pharhaol i'w iechyd a'i ddatblygiad; ac

(c) o ran oedolyn, bod yr oedolyn wedi bod, ar unrhyw ddyddiad yn ystod y 6 mis cyn dyddiad y digwyddiad y cyfeirir ato yn is-baragraff (a), yn berson y mae awdurdod lleol wedi penderfynu cymryd camau mewn cysylltiad ag ef i'w amddiffyn rhag cael ei gam-drin neu ei esgeuluso yn unol ag adran 32(1)(b)(i) o'r Ddeddf yn dilyn ymholiadau gan awdurdod lleol o dan adran 126(2) o'r Ddeddf.

(5) Wrth gynnal adolygiad ymarfer, rhaid i Fwrdd—

(a) gofyn i bob corff cynrychioliadol roi gwybodaeth yn ysgrifenedig i'r Bwrdd am ei ymwneud â'r plentyn neu'r oedolyn sy'n destun yr adolygiad;

(b) sicrhau y ceir persbectif y plentyn neu'r oedolyn sy'n destun yr adolygiad a bod persbectif y plentyn neu'r oedolyn hwnnw yn cyfrannu at y broses adolygu, i'r graddau y bo'n ymarferol a phriodol i amgylchiadau'r achos;

(c) sicrhau y ceir persbectifau aelodau o'r teulu neu gynrychiolydd penodedig y plentyn neu'r oedolyn sy'n destun yr adolygiad a bod y persbectifau hyn yn cyfrannu at y broses adolygu, i'r graddau y bo'n ymarferol a phriodol i amgylchiadau'r achos;

(d) cynnal digwyddiad dysgu amlasiantaethol ar ôl cael yr wybodaeth ysgrifenedig y cyfeirir ati yn is-baragraff (a);

(e) yn achos adolygiad ymarfer cryno, sicrhau bod y digwyddiad dysgu amlasiantaethol y cyfeirir ato yn is-baragraff (d) yn cael ei drefnu a'i hwyluso gan un adolygydd a benodir gan y Bwrdd;

(f) yn achos adolygiad ymarfer estynedig, sicrhau bod y digwyddiad dysgu amlasiantaethol y cyfeirir ato yn is-baragraff (d) yn cael ei drefnu a'i hwyluso gan ddau adolygydd a benodir gan y Bwrdd;

(g) sicrhau bod unrhyw adolygydd y cyfeirir ato yn is-baragraff (e) neu (f) yn annibynnol ar unrhyw ymwneud uniongyrchol â gwaith achos neu reoli achosion mewn cysylltiad â'r plentyn neu'r oedolyn sy'n destun yr adolygiad;

(h) llunio adroddiad ar yr adolygiad ymarfer sy'n argymell pa gamau (os o gwbl) y mae'n ofynnol eu cymryd ar ôl y digwyddiad dysgu amlasiantaethol;

(i) sicrhau nad yw'r adroddiad ar yr adolygiad ymarfer yn datgelu pwy yw'r plentyn neu'r oedolyn sy'n destun yr adolygiad na theulu'r plentyn neu'r oedolyn na lle y maent;

(j) llunio cynllun gweithredu gan fanylu ar y camau sydd i'w cymryd gan y cyrff cynrychioliadol i weithredu argymhellion yr adroddiad ar yr adolygiad ymarfer;

(k) rhoi copi o'r adroddiad ar yr adolygiad ymarfer a'r cynllun gweithredu i Weinidogion Cymru ac i'r Bwrdd Cenedlaethol;

(l) trefnu bod yr adroddiad ar yr adolygiad ymarfer ar gael i'r cyhoedd;

(m) cynnal adolygiadau cynnydd cyfnodol ar roi'r cynllun gweithredu ar waith;

(n) rhoi i Weinidogion Cymru a'r Bwrdd Cenedlaethol adroddiad ysgrifenedig ar ôl unrhyw adolygiad cynnydd y cyfeirir ato yn is-baragraff (m), gan adrodd ar y cynnydd o ran rhoi'r cynllun gweithredu ar waith a'r effaith ar bolisi ac ymarfer amddiffyn plant neu oedolion yng Nghymru;

(o) rhoi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir iddo gan Weinidogion Cymru, drwy arfer ei swyddogaethau o dan y rheoliad hwn.

(6) Yn y rheoliad hwn ystyr "cynrychiolydd penodedig" ("*appointed representative*") yw person sydd â'r awdurdod i siarad neu weithredu ar ran plentyn neu oedolyn.